

# Trac Athletau Eirias –Ailagor

- Pryd – Dydd Mercher 17 Mawrth 2021
- Rhaid archebu ymlaen llaw ar-lein ar <https://conwy.leisurecloud.net/Connect/mrmLogin.aspx>
- Dewch yn barod i ddefnyddio'r trac gan fydd yr holl ystafelloedd newid a thoiledau ar gau
- Gallwch archebu lle ar gyfer y trac hyd at 7 diwrnod o flaen llaw
- Ar ôl cyrraedd, byddwch angen dod i'r dderbynfa fel y gallwn gofnodi eich presenoldeb
- Cyrhaeddwch ar amser eich archeb
- Bydd unrhyw un sy'n dod i ddefnyddio'r trac heb archebu lle ymlaen llaw yn cael eu gwrthod
- Gall uchafswm o 4 o bobl o 2 aelwyd redeg gyda'i gilydd

Er mwyn galluogi pobl i gadw pellter cymdeithasol a dilyn y canllawiau diweddaraf ar gymysgu aelwydydd, mae'r nifer o bobl all defnyddio'r trac ar unrhyw adeg wedi ei leihau. I ddechrau, dim ond ar yr adegau canlynol y bydd y trac ar gael:

**Dydd Llun i Ddydd Gwener 9.00am – 4.00pm**

Edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl i'r cyfleuster!

